YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
EIN MUDIAD A'I NEGES.
YR HEN A'R NEWYDD.
EIN CYLCHGRAWN.
MYFYRION GWR SEGUR.
EFAIL Y GOF.
Y MAES LLAFUR.
URDD Y BENYWOD.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Cyf. xxxiv. | Ionawr 1934 | Rhif 1

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Ni ellir gwell anrheg i Athro neu Ddisgybl yn yr Ysgol Sul

— na chopi o'r —

Geiriadur Beiblaidd

Dwy Gyfrol, Chwarter Rhwym, Graen Moroco - £2 10s.
Dwy Gyfrol, Lliain Cynfas Cryf - - £2 2s.

I'w gael o SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXIV. IONAWR, 1934. RHIF 1

" DOS I'TH YSTAFELL —."

" *Sefwch gan hynny yn y rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni, ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed.*"—Gal. v, 1.

* * *

RHAGORFRAINT yw byw mewn byd lle y medr dyn fwynhau ei grefydd a meddu ffydd yn ei ffydd ; ond yr ydym yn ddyledus am hyn i wroldeb dynion y dyddiau gynt. Ac ymddengys i mi yn beth tlawd iawn i fwynhau y fraint yma tra yn ymatal rhag edrych tua'r dyfodol a chasglu gwybodaeth am y byd ydym yn byw ynddo.—EDWARD EVERETT HALE.

* * *

RHAID i mi wrth ffydd *yn* fy ffydd,—rhaid i mi wrth gredu y byddai i'm argyhoeddiadau am grefydd a gwleidyddiaeth a moesoldeb a bywyd, o fod yn ddigon llydan ac yn ddigon dwfn, greu nef newydd a daear newydd ; felly rhaid myned ati i wneyd fy argyhoeddiadau *yn* ddigon llydan a dwfn. —ROBERT COLLYER.

* * *

EIN gwaith pennaf yw achub gwirioneddau a dderbynnir gan bawb rhag cael eu hesgeuluso am fod pawb *yn* eu credu.—SAMUEL TAYLOR COLERIDGE.

* * * * * *

EIN Tad trugarog, Tydi wyt Dduw o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg Di fel doe wedi yr êl heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos ; gyda thi nid oes gyfnewidiad na chysgod troedigaeth. Ymgrymwn ger dy fron ar ddechreu blwyddyn newydd i'th foliannu am y cariad a fu yn ein cynnal a'r gofal a fu yn ein gwylied hyd yn hyn.

Diolchwn i Ti am bob dadguddiad o'th ddoethineb a'th fawredd a'th degwch a gawsom, ac am y doniau a roddaist i ni i chwilio cyfrinion dy fydysawd ac i olrhain dy wirioneddau a deall dy ewyllys. Diolchwn i Ti am ddysgawdwyr a phroffwydi ac arloeswyr yr oesau, fu yn tywys eu cyd-ddynion i wybodaeth uwch a gwell ohonot Ti a'th greadigaeth.

Bydded y flwyddyn newydd hon i ninnau yn flwyddyn o ymroddiad newydd i barhau yn yr ymchwil am y gwirionedd. Dyro i ni y gwyleiddra a'r gostyngeiddrwydd sydd yn gweddu i'r rhai a gredant fod gennyt Ti oleuni newydd o hyd i dywynnu ar hyd llwybrau dy blant. Ennyn ynnom y ffydd a'r gwroldeb i fod yn ufudd i'n gweledigaeth fel y byddom yn gyfryngau teilwng yn dy law i hyrwyddo dyfodiad dy deyrnas.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

YR YMOFYNNYDD.

"UN o brif amcanion yr YMOFYNNYDD", meddai ei olygydd cyntaf yn 1847, "yw annog a chynorthwyo rhydd ymofyniad a thaer ymchwiliad am y gwir". Nid oes angen chwilio am well arwyddair iddo yn 1934.

Ond mae yr YMOFYNNYDD yn gylchgrawn enwadol hefyd; misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig ydyw, ac hyd yma mae Undodiaeth yn *enwad*. O bosibl yr ymddengys i rai ohonom mai annodd i gylchgrawn *enwadol* fyw i fyny a delfryd rhydd-ymofyniad. Ond ar hyd y blynyddau mae yr YMOFYNNYDD wedi llwyddo i wasanaethu enwad ac i fod yn ffyddlon i egwyddorion y mudiad eangach sydd yn cynnwys yr enwad. Am yn agos i ganrif bellach mae ein cylchgrawn wedi gwasanaethu fel newyddiadur yr eglwysi, tra ar yr un pryd bu ei dudalennau yn agored i bawb i draethu barn onest a di-ofn.

Bu llawer o gyfnewid ar "awyrgylch" feddyliol a chrefyddol Cymru er 1847. Nid diddorol bellach mae'n debyg, y problemau diwinyddol a hawlient sylw ein rhagflaenwyr yn y ffydd. Ymgollwn mewn edmygedd o ystyried llafur a diwydrwydd golygyddion a gohebwyr YMOFYNYDDION y ganrif ddiweddaf. Peth i ryfeddu mwy ato i lawer yw amynedd a diddordeb *darllenwyr* y ganrif honno. Oes yn crefu am bethau ysgafnach yw hon, ac nid achlysur gofid digymysg yw y cyfnewidiad. Ond ar waethaf y cri am bethau ysgafn a syml glywir o wahanol gyfeiriadau, annodd yw credu nad oes modd diddori pobl heddyw gyda phroblemau hanfodol bywyd, a phroblemau *crefyddol* yw problemau hanfodol byd a bywyd i gyd.

Mae hyn i gyd yn arwain i ystyriaeth o swyddogaeth yr YMOFYNNYDD. Nid oes angen dweyd y deil i fod yn newyddiadur yr eglwysi Undodaidd Cymreig, a lle ynddo bob amser i gofnodi helyntion ein pobl—eu llwydd a'u haflwydd,—eu byw a'u marw, ynghyd a'r prif ddigwyddiadau yn ein heglwysi.

Ond beth am y gweddill? Beth sydd yn addas i olygydd newydd a dibrofiad i obeithio a chynllunio.

O edrych yn ôl i'r gorffennol pell ac agos, ni fedraf ond synnu i mi fod yn ddigon hyf i eistedd yng nghadair y cewri,—ond o edrych ymlaen ni fedraf ond cymeryd cysur o feddwl imi wybod o leiaf mai nid heb ymdrech ac ymroddiad a pharodrwydd i ddysgu ac i wasanaethu y daw gwir lwyddiant i undyn nac unpeth. Gwn fod ewyllys dda darllenwyr yr YMOFYNNYDD o'm plaid; ni ofynnaf yn ychwaneg ond am gydweithrediad a chynorthwy y sawl a fedro gynorthwyo; a gobeithiaf fod goddefiad yn parhau yn rhan o'r traddodiad Undodaidd.

Cymeraf yn ganiataol y bydd darllenwyr yr YMOFYNNYDD yn awyddus i ystyried problemau moesol a chymdeithasol a diwinyddol ac athronyddol y dydd o safbwynt Crefydd Rydd. Gwnaf ymgais i sicrhau yn ychwanegol ysgrifau ar destunau llenyddol a hanesyddol gan ysgrifennwyr cymwys. Ymdrechir am amrywiaeth, ac am y safon lenyddol goreu posibl, heb golli golwg ar y ffaith mai nid cystadlu a chylchgronnau llenyddol fel y cyfryw yw swyddogaeth yr YMOFYNNYDD ond bod o wasanaeth ymarferol i'r gymdeithas a'i nodda, er llwyddiant achos Crefydd Rydd, ac er hyrwyddo dyfodiad teyrnas Rhyddid, Gwirionedd a Chariad.

Gyda'r ychydig fyfyrdodau gwasgaredig hyn, cyflwynaf fy rhifyn cyntaf i'ch dwylaw, gan ddymuno i chwi

FLWYDDYN NEWYDD DDA

* * *

YR AMLEN.

Gan nad beth feddylir am gynnwys YMOFYNNYDD Ionawr 1934 a'i olynwyr, ni fedrir synio y bydd dau feddwl gan neb ynglŷn â'r amlen newydd, a'r darlun chwaethus ac arwyddocaol sydd arni. Gwaith Mr. Jack Park Davies,—mab y Prifathro Park Davies, yw y llun sydd ar yr amlen, a bydd pawb yn barod i'w longyfarch ar y chwaeth a'r medr sydd yn amlwg yn ei waith, ac i ddiolch iddo am ei wasanaeth rhad a pharod i'r Gymdeithas. Myfyriwr addawol yn y *Carmarthen School of Arts* ydyw Mr. Jack Davies a dymunwn iddo lwyddiant mawr fel arlunydd.

Sylwir o bosibl fod gwell papur yn yr amlen newydd. Ni fedrai y cyhoeddwyr roddi y papur newydd am bris yr hen,—rhaid i'r gymdeithas yn ôl llaw benderfynu a ydynt yn foddlon dwyn y draul ychwanegol neu beidio : ond am 1934 dygir y gost gan y cyfaill hael, Mr. W. S. Jones. Teimlwn yn sicr y bydd ein darllenwyr yn wir ddiolchgar iddo am y caredigrwydd newydd yma.

* * *

1933.
HELYNT HEDDWCH.

Problem heddwch y byd fu yn diddori ac yn gofidio pobl feddylgar ar hyd y flwyddyn a aeth heibio. Ar ddechreu 1933 edrychid ymlaen gyda rhyw gymaint o hyder at agoriad Cynhadledd Diarfogiad yn Geneva yn Chwefror. Daeth dyddiau tywyll ar Gynghrair y Cenhedloedd cyn i'r flwyddyn heneiddio fawr. Penderfynodd y Gynghrair fabwysiadu adroddiad Arglwydd Lytton ar y sefyllfa rhwng Japan a China. Oherwydd i'r adroddiad amddiffyn i ryw fesur hawliau China yn Manchuria, nid oedd y dyfarniad wrth fodd calon Japan, a rhoes rybudd ei bod yn ymadael â Chynghrair y Cenhedloedd.

Helbulus fu hynt Cyngor Diarfogiad, a gohiriodd ym Mis Gorffennaf heb ond ychydig o arwyddion o gytundeb na gobaith am gynnydd. Gwnaethpwyd y sefyllfa yn wir dywyll a pheryglus gan fuddugoliaeth plaid y Nazis yn yr Almaen. O dan lywodraeth ac arweiniad y Canghellydd Hitler, amlygwyd ysbryd a ymddangosai yn filitaraidd i'r eithaf yn y wlad honno. Hawliwyd rhyddid i ail-arfogi a galwyd am adolygiad helaeth o gyfamod Versailles. Rhagor na hynny dangoswyd ysbryd trahaus a gormesol o fewn yr Almaen ei hun tuag at bawb na blygent lin yn wasaidd i'r awdurdodau newydd, ac erlidiwyd Iddewon gyda chreulondeb di-dostur. Ysgydwyd cyfandir Ewrop i gyd gan y pethau hyn, a du odiaeth oedd y rhagolygon pan ail gyfarfu Cynhadledd Diarfogiad ym mis Hydref. Yn fuan oherwydd methu o'r Cyngor i gyfarfod â gofynion yr Almaen, ymadawodd yr Almaenwyr o'r Gynhadledd ac o Gynghrair y Cenhedloedd. Bu cryn fraw am dro a sôn am ryfel buan, ond tawelodd pethau yn raddol a daeth y flwyddyn i ben heb i'r dymhestl dorri.

Ni ŵyr neb a fedrir osgoi rhyfel yn y dyfodol agos. Mae pwerau nerthol o ochr dinistr a gwae,—uchelgais a phenboethni cenedlaethol, trachwant rhyfygus a dichellion digywilydd gwneuthurwyr arfau, a gwaeth na'r cwbl, difaterwch a dallineb gwerinoedd byd. Ffolineb rhyfygus fyddai tybio bod " dynion cyffredin " y gwledydd o blaid rhyfel, ond o fethu ohonynt fynegu yn glir ac yn bendant eu hawydd am heddwch, ac o gymeryd eu harwain yn ddall gan ddynion na fedrant feddwl ond yn nhermau yr hen oruchwyliaeth rhoddant gynhorthwy sylweddol i'r dylanwadau sydd yn cwmpasu eu dinistr. Meddwl a chydwybod effro y " dyn cyffredin " a theyrngarwch ymarferol Cristionogion proffesedig i egwyddorion y Bregeth ar y Mynydd yw'r pwerau a fedrant droi y fantol o ochr heddwch.

* * *

HELYNT CREFYDD.

Nid oes unrhyw sail dros gredu i unrhyw un o ganghennau yr Eglwys Gristionogol yn ein gwlad wneyd cynnydd sylweddol mewn rhif a nerth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ond tueddwn i gredu ar waethaf popeth fod dylanwad yr eglwysi ar gynnydd. Yn sicr y mae y nodyn gobeithiol yn amlwg yng nghyngorau y gwahanol enwadau, ac ar droion clywir llais clir a phendant o ryw gyfundeb neu'i gilydd yn galw ar wlad a chymdeithas i drefnu eu bywyd yn unol a delfryd a phroffes gwareiddiad Cristionogol.

Tynnodd Mudiad Grwp Rhydychen lawer o sylw ond cymysg hyd yma yw'r lleisiau sydd yn traethu am dano. Ceir ysgrif yn yr YMOFYNNYDD yn fuan ar hanes a natur ac amcanion y mudiad hwn.

Daw un newydd da o'r Almaen. Gwnaethpwyd ymdrech yn y wlad honno i wneyd yr eglwysi Cristionogol yn gwbl gaeth mewn ysbryd a threfniant i'r Wladwriaeth. Nid oedd yr Eglwysi yn hyn ond yn dioddef yr un dynged a phob sefydliad arall yn y wlad. Llwyddodd y cynllun gormesol yma bron ymhob cyfeiriad, ond er syndod byd, mewn tipyn gwrthdystiodd corff cryf o'r gweinidogion Protestanaidd, a hynny gyda'r fath effaith fel y mynegodd Hitler na fyddai i'r Wladwriaeth ymyryd ym mywyd yr eglwysi. Ni wyddis eto beth fydd effaith y fuddugoliaeth. Barnai Vernon Bartlett, wrth ddarlledu tua bythefnos yn ôl mai dyma un o'r pethau pwysicaf sydd wedi digwydd ynglŷn â'r sefyllfa yn yr Almaen.

Ein Mudiad a'i Neges.

Cyfarchiad oddiwrth y Parch. ALFRED HALL, M.A., Llywydd y "General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches", (wedi ei gyfieithu).

YN rhinwedd fy swydd fel Llywydd y "General Assembly" yr wyf yn anfon i gyfarch aelodau Cymreig yr Assembly ac i ddymuno pob llwyddiant i'r YMOFYNNYDD dan y golygydd newydd.

Bydded i'r flwyddyn newydd ddwyn bendithion helaeth i chwi i gyd; rhoed i ni y fraint o weled heddwch ac ewyllys dda yn teyrnasu dros holl gyrau'r ddaear.

Mynegaf y dymuniad olaf hwn am y credaf mai gorchwyl pennaf yr eglwysi yn ein dyddiau ni yw ymdrechu i ddileu pob gelyniaeth rhwng gwlad a gwlad, fel y delo heddwch a diogelwch i ddynion, a chyfle i bob un i weithio a gwasanaethu ei gyd-ddynion. Nid oes *unpeth* o gymaint pwys a heddwch rhwng y gwledydd : i sicrhau yr heddwch hwn dylem gysegru ein holl egnion.

Mae yn wir angenrheidiol i'n holl eglwysi Undodaidd yn yr Ynysoedd Prydeinig i sylweddoli eu bod yn rhan o'r "General Assembly". Mae gan lawer o bobl ryw syniad mai rhyw sefydliad yn Llundain neu rywle tua gogledd Lloegr yw'r General Assembly, ond nid yw mewn gwirionedd ond *cymdeithas* yn cael ei gwneyd i fyny o'r oll o'n heglwysi. Mae pob achos Undodaidd, bydded yn Lloegr, neu Gymru, neu Sgotland, neu yr Iwerddon yn rhan hanfodol o'r gymdeithas yma, a'n hangen mawr ni ydyw dyfod yn fwy ymwybodol mai *cymdeithas* ydym, ac i wrteithio yr ysbryd a bair i ni gyd-weithredu â'n gilydd ac i wasanaethu ein gilydd.

Os digwydd eich bod chwi yn perthyn i achos bychan, a'ch cyd-addolwyr ond ychydig mewn rhif, ni ddylai hynny eich rhwystro i sylweddoli eich bod yn perthyn i fudiad eang, sydd yn cynyddu mewn nerth a dylanwad.

Mae ein heglwysi ni drwy gydol eu hanes wedi sefyll dros achos Crefydd Rydd, ac mae'r achos hwn erbyn hyn wedi lledu dros y byd.

Yn St. Gall yn Switzerland yn Awst 1932 cynhaliwyd cynhadledd gyd-genedlaethol o gynrychiolwyr mudiadau cyffelyb i'n heiddo ni. Yr oedd yno liaws o gynrychiolwyr o'n heglwysi ni ac amryw o aelodau Cymdeithas Undodaidd yr Amerig, heblaw llawer o bobl o wledydd eraill y byd. Enw y gynhadledd yma yn y dyfodol fydd,—" Cymdeithas Gydgenedlaethol Cristionogion Rhyddfrydig a Chrefydd Rydd ". Yn St. Gall cyfrifwyd fod aelodau y gynhadledd yn cynrychioli pum miliwn ar hugain o bobl. Mae hyn yn arwydd o'r cynnydd mae meddwl rhyddfrydig wedi wneyd. Yr wyf yn wir argyhoeddedig fod y dyfodol yn eiddo i'n ffydd ni, ac fod gennym gyfraniad gwerthfawr i'w wneyd i fywyd crefyddol y byd.

Beth yw ein neges ? O geisio yn ddiweddar i fynegu ein neges mewn ffurf fyddai yn ddealladwy i blentyn, darganfyddais mai dyma y ffordd oreu *i* fynegu yr hyn sydd gennym i ddysgu. Ein neges ni yw y neges a draddodwyd gan yr Iesu. Medrir ei chrynhoi i ychydig o eiriau :—" Mae Duw yn Dad i bawb : mae pob dyn felly yn blentyn i Dduw a dylai fyw fel y cyfryw : dylai pob dyn feddwl am eraill fel plant Duw, ac ymddwyn tuag atynt fel y cyfryw." Dyna y neges a gwyd yn naturiol o'r ffydd bregethwyd gan ein rhagflaenwyr.

Yn aml dywed pobl o'r tu allan i'n heglwysi ni, a rhai o'r tu fewn hefyd, mai yr hyn a'n gwahaniaetha ni oddiwrth eglwysi eraill yw ein bod yn credu mai " dyn oedd yr Iesu ". Ond mae'r oll o'r eglwysi yn credu fod yr Iesu yn ddyn. Dywed Credo Athanasiws fod yr Iesu " yn berffaith ddyn : o enaid rhesymol, a dynol gnawd yn hanfod ". Yr hyn sydd yn gwneyd ein ffydd ni yn wahanol ydyw, ein bod wedi gwrthod dysgu fod " dyn wedi myned yn dra phell oddiwrth gyfiawnder gwreiddiol ", a'i fod " o'i naturiaeth ei hun a'i ddychwant at ddrygioni ". Yn hytrach yr ydym wedi datgan ein cred fod yr Iesu yn iawn pan y pregethai fod dynion mewn gwirionedd yn blant i Dduw ac y dylent weddio " *Ein Tad* yr hwn wyt yn y Nefoedd ". Dyna ein neges.

Angen dynion heddyw ydyw am syniadau uwch am ddyn a phwrpas Duw ym mywyd dyn,—angen am syniadau uwch am bwerau a phosibiliadau dyn. A pha syniad uwch fedrir gael na'r gred fod " dynion oll yn wirioneddol ddwyfol ei natur " ?

Yng nghwrs hanes bu i un dyn gredu hynyna a byw yng ngoleuni ei ffydd. Y Meistr ei hunan oedd hwnnw. Efe felly yw ein

Harweinydd ni ar y ffordd ; ein dyledswydd ni ydyw ymgeisio cyrraedd at ddelfryd yr Apostol Paul,—" i fod yn wr perffaith at fesur maintioli cyflawnder Crist ".

Ein cenhadaeth ni ydyw cadw y ddelfryd odidog yma yn ddisyfl o flaen plant dynion.

Hyn gyda'm cyfarchiadau a'm dymuniadau gorau i chwi i gyd.

ALFRED HALL.

Yr Hen a'r Newydd.

" POPETH newydd, dedwydd da." Dyna ddywedir yn aml gennym. Y mae blwyddyn newydd wedi dod. Disgwylir i hon fod yn llawn o ddedwyddyd a llwyddiant. Gwneir cyfeillion newydd a chredir na fydd yr un tro yn eu cynffonau hwy. " Nefoedd newydd a daear newydd " meddai'r proffwyd. " Ni fydd rhyfel na phoen nac eisiau mwyach."

Breuddwydion cyffredin yw y rhai hyn ond nid ydynt yn unol â phrofiad bywyd. Ni ellir cael unpeth newydd heb fod yna lawer sydd hen yn gymysg ag ef. Nid yw cyfeillion newydd ond yr hen rai o dan enwau newydd ac mewn gwisgoedd eraill. A phan yn sôn am nefoedd a daear newydd ni olygir ond delfrydau ag ydynt wedi tyfu allan o brofiad y gorffennol. Ceir yn y flwyddyn sydd wedi gwawrio yr un tymhorau, pryd hau a chynhaeaf, ac oerni a gwres, haf a gaeaf, a dydd a nos. Y mae bywyd yn debyg i'r dyn hwnnw o berchen tŷ, yr hwn sydd yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen. Y cynllun gorau, felly, pan yn gafaelyd yn y newydd yw, peidio gollwng i'r hen i fynd o'r cof a'r galon yn gyfangwbl.

Rhywbeth tebyg i hyn y meddyliwn ac y teimlwn pan yn ceisio datgan gair o ddymuniad da i Olygydd newydd yr YMOFYNNYDD ar ddechrau ei waith. Wrth wneud hyn nis gallaf lai na chofio yn ddiolchgar am y rhai wnaethant lafurio yn y winllan mor ffyddlon o'i flaen. Pan y caniatâ amser byddaf yn sylwi weithiau yn llyfrgell y Coleg ar y gyfres lawn o rifynnau yr YMOFYNNYDD o ddydd ei ymddangosiad cyntaf hyd y presennol ac nis gallaf lai na theimlo yr edmygedd mwyaf tuag at y golygyddion a fu. Y mae hyn mor wir am yr olaf ag un o honynt. Ofnaf iddo gael achos i achwyn yn aml. Pan y gofynnodd i rai o honom o dro i dro am fara ni chafodd ond carreg. Ond hwn, debygaf, yw profiad pob golygydd. Efallai y bydd o ryw gysur iddo gofio yn ei seibiant nad yw cydwybodau pawb o honom yn hollol esmwyth. Teg hefyd yw cydnabod, a hynny yn helaeth, ei fod wedi gwneud diwrnod da o waith dros yr YMOFYNNYDD. Mwynhad mawr oedd

darllen teyrnged iddo ychydig ddyddiau yn ôl yn un o bapurau enwocaf y wlad am ei erthyglau ar hanes yr Eglwysi Undodaidd yng Nghymru. Gobeithio y ceir rhagor oddiwrtho eto, yn enwedig yn y cyfeiriad hwn.

Ac yn awr dyma'r Parch. T. L. Jones wedi cymryd yr iau ar ei ysgwydd. Gallwn longyfarch ein hunain fod gennym un mor gymwys yn barod at y gwaith. Y mae rhagor rhwng golygydd a golygydd mewn gogoniant. Nid dymunol fyddai i'r golygydd newydd fod yn efelychiad o'i ragflaenydd. Amrywiaeth yw un o anhebgorion llwyddiant. Fel un o hen fyfyrwyr y Coleg credaf fod gennyf hawl i ddweyd gair am gymhwysderau Mr. Jones. Cymer ddiddordeb mewn maes eang o efrydiaeth ; y mae yn feddyliwr clir a chraffus ac wedi gwneud ei hun yn gynefin â'r gwahanol symudiadau—meddyliol a chymdeithasol—sydd yn hawlio sylw pobl heddyw ymhob rhan o'r byd. Yn ddiweddar efe enillodd y wobr flaenaf am gyfraniad i'r " Inquirer " ar gyfres o erthyglau oeddynt newydd ymddangos. Dylasai yr anrhydedd a enillodd fod yn destun gorfoledd i Undodiaid Cymru yn gyffredinol.

Rhydd yr Ymofynnydd gyfle rhagorol iddo i ddatblygu ei alluoedd ac i wasanaethu ei enwad a'i genedl. Dymunwn iddo gyfnod maith yn ei swydd a llwyddiant mawr yn ei waith.

J. Park Davies.

Ein Cylchgrawn.

Ceisiodd golygydd newydd yr Ymofynnydd gennyf i draethu fy marn ar yr hyn ddylai ein cylchgrawn fod.

Ni hawliaf fod yn awdurdod ar y pwnc oherwydd ni chefais erioed brofiad golygydd. Braidd yn hwyrfrydig gan hynny y ceisiaf osod i lawr nid deddfau pendant ond ychydig o awgrymiadau a ddichon fod o ryw werth.

Cylchgrawn enwadol at wasanaeth Undodiaid Cymru yn bennaf ydyw yr Ymofynnydd ; felly ei brif bwrpas yw dal egwyddorion yr enwad o flaen llygaid y darllenwyr, a chofnodi hanesion yr enwad yn gyffredinol. Gobeithiaf, er hynny, na chaf weld dim yn ymylu ar sectyddiaeth gul ynddo. Nid culni ond ehangder ysbryd yw gwir nodwedd ein henwad. Ni all archwiliaeth i'r gwirionedd fyw gyda chulni barn ac ysbryd.

Y prif wahaniaeth rhwng Undodwr a Iawnffyddwr yw, nid bod y cyntaf yn credu yn undod Duw a'r olaf yn y Drindod, ond yn hytrach bod yr Undodwr yn hawlio rhyddid i chwilio, a phwyso, a mesur y gwir drosto'i hun, a'r Iawnffyddwr yn gyff-

redin yn addef ei hun yn rhwym wrth draddodiadau'r gorffennol. I'r Undodwr y mae crefydd yn beth llawer pwysicach ac ehangach nac enwad na diwinyddiaeth.

I'm tyb i ni ellir gwahanu crefydd a moesoldeb. Hunan-dwyll yw defosiwn dyn o fywyd anniwair a rhagrithiol. Gwnaed yr YMOFYNNYDD ynte feithrin delfrydau moesol uchel i godi'r genedl i fyny. Y mae llawer o dawch afiach yn awyrgylch lenyddol y byd heddyw, fel petai cylion y carthffosydd wedi chwythu ar ymenyddiau'r ysgrifennwyr.

O chaniatâ gofod, bydd yn dda gan y darllenwyr o dro i dro, i gael hanes mudiadau pwysig yng ngwahanol enwadau'r byd. Nid doeth yw anwybyddu unrhyw fudiad da neu ddrwg sydd yn debig o effeithio er gwell neu er gwaeth ar fywyd crefyddol dynolryw. Hefyd y mae'r holl wybodau,—gwyddor ac athroniaeth, yn ffinio ac yn effeithio ar grefydd dynion goleuedig. Y mae eisiau llygad craff a barn ddoeth ar olygydd i wybod beth sydd o werth i'w argraffu yn ei gyhoeddiad.

Gobeithiaf y bydd 'i'r golygydd anelu at safon lenyddol uchel. Gwaith anodd yn ddiau yw sicrhau cyflawnder o ysgrifau da; ac nid peth rhwydd ychwaith yw gwrthod ysgrifau gwael oddiwrth ysgrifenwyr awyddus i gynorthwyo: ond rhaid i olygydd wrth fasged. Nid oes lle mewn cylchgrawn bychan i benillion heb fesur, heb odl, heb ramadeg, heb farddoniaeth, na llawer o synnwyr. Caffed pob englyn dibwynt a digynghanedd le esmwyth yn y fasged.

Dylai pob golygydd ofalu dod i'r byd gyda chroen dyblyg o ran trwch a gwydnedd, oherwydd bydd rhai pobl yn ysgrifennu llythyrau chwerw atynt pan ymddengys unrhyw beth na fydd yn rhyngu eu bodd hwy. Ond gwaith golygydd yw didoli'r da oddiwrth y drwg: a dylai lanw ei swydd heb ofn na derbyn wyneb.

Credaf fod digon o allu ymhlith Undodiaid Cymru wneud ein misolyn yn gyfoethog, yn ddisglair ac yn ddarllenadwy. A gawn ni fedi o ffrwyth meddyliol llenorion yr enwad?

ISLAN.

EFAIL Y GOF.

WRTH ddychwelyd tuag adref
O hen Ysgol lwyd y Llan,
Gyda'r hwyr ar gwrr y pentref
Oedem dro o gylch y fan.

Yn y gornel dawel deuai
Tinc morthwylion, clir fel cloch,
A thrwy gil y drws chwareuai
O'r parwydydd dywyn coch.

Yntau'r gŵr cyhyrog, heini,
Ganai'n sŵn y fegin fawr,
Gydag ystoriâu'r cwmpeini
Chwim yr hedai heibio'r awr.

Do; fe ddaeth i'r gof ei noswyl,
Ac mae'r efail wag dan glo,
Ond mae sŵn yr ordd a'r morthwyl
Eto'n danbaid yn fy ngho.

Abergwaun. J. J. EVANS.

Myfyrion Gwr Segur.

Gan y Parch. J. Clericus Davies.

Wele o'r diwedd rywbeth ag sydd wedi llwyr ymaflyd ynof; testun ag sydd wedi fy meddiannu, gorff, ac ysbryd ac enaid, oddiar y diwrnod cyntaf y rhoddais gam ar wyneb yr hen blaned yma.

Y perigl yw fy mod yn teimlo'n rhy lawn ohono i'r tafod, neu o leiaf i'r ysgrifbin draethu arno. Ond, oes y traethawd cwta a'r bregeth fer yw hon. Y mae i'r testun ei fantais. Yn wir dwg ambell glefyd arall ei fantais hefyd; y ffliw er enghraifft. Diolch i wythnos o anwydwst ysgawn, darllenais dro'n ôl ddwy gyfrol gyfan o Gyffesiadau'r breuddwydiwr rhyfedd hwnnw, Jean Jacques Rousseau.

Ac am lawer gorchwyl o'r fath 'rwyf dan ddyled drom i bwl o ddolur sydd heb fy ngadael am dros hanner canrif. Gwyddwn er y Ffair Llanbed' gyntaf y bûm ynddi erioed mai clefyd anwelladwy ydoedd; er nas gwyddwn ar y pryd ei fod wedi gosod ei grafangau di-ollwng-gafael yn fy nghyfansoddiad gwan fy hun:

Eli Treffynnon
A'ch gwella chi'n union
O bob clefyd ond *diogi* a chlefyd y galon!

Dyna fel y gweiddai'r hen werthwr *eli* ac almanaciau ar Fanc y Ffair.

Modd bynnag, yn y rhan hon o'r wlad, ac yn yr oes gyntefig honno nid oedd fawr sôn am y ddau glefyd anfeddygyniaethol a nodir yn y pennill.

Pe buasai pethau wedi cymryd eu cwrs naturiol diamau mai ffermwr a fuaswn heddiw. Ac er cynddrwg byd yn aml sydd ar offeiriad gwlad, nid yw ei ffwdan ond gronyn i'w gymharu a mynydd helbulon amaethwr. Cofier, nid wyf am geisio perswadio'r darllennydd hynaws mai offeiriad diog a di-ddim ydwyf, yn ystyr arferol y termau hyn. "Perthynasoldeb" yw gair mawr yr oes: neu relatifiti fel y spelir ef gan un ysgol o Gymreigwyr. Cymharol yw popeth; ac y mae graddau mewn diogi a di-ddimdra. Ond, a'm cymharu fy hun a'r hyn y dylaswn fod, yr wyf ar hyd fy oes hirfaith wedi bod yn gywilyddus o ddiog. Onid oedd Esgob Ll—— yn gyd-fyfyriwr â mi yn y coleg; ac oni churais ef yn ffflon fwy nag unwaith yn yr arholiadau pen tymor? Er, ysywaith, mai gwir a draethodd yr hen feddyg-fardd doeth a charuaidd hwnnw, Oliver Wendel Holmes:

"*Many a man lives on the reputation of the reputation he might have made.*"

Beth bynnag, pan oeddwn yn grwt, yn lle helpu fy nhad i dorri cwter neu godi clawdd, wrth y tân yn segura oeddwn i, yng nghwmni Robinson Crusoe. Fwy nag unwaith bu fy mam yn bygwth y fflamau ar y creadur di-fudd hwnnw, ac nid wyf yn siwr na ddeifiwyd rhywfaint ar ei flew gafr a'i umbrelo. " Gâd i'r hen Robin Sion Griwson yna, bachan, a threia neud rhyw orchwylyn o waith gonest, fel rhyw blentyn arall " ! Felly mam, druan ; ond yn ofer.

Ac yn yr haf, pan ddylaswn fod yn edrych ar ôl y praidd, eisteddwn yng nghysgod llwyn drain gan ddilyn helyntion F' Ewythr Twm a'i deulu ; a'r defaid, fel y caethion, yn dianc am eu rhyddid i diriogaethau dieithr.

A'r diwedd fu i'r ddedfryd gael ei chyhoeddi uwch fy mhen : " Mae'r crwt yna'n rhy bwdwr i weithio ar y fferm ; 'does dim i'w wneud ond ei ddanfon i'r ysgol."

Ac yr oeddwn yn rhy ddiog i wrthwynebu fy nhynged.

Gwyddoch fod dau fath ar ddiogi ; y cyntaf yn peri i'r corff aros yn ei unfan ; y llall yn ei orfodi i fyned yn ei flaen mewn llinell unionsyth, heb fedru byth ymatal : yn ôl deddf gyntaf Newton.

Yr wyf yn dioddef oddiwrth y ddau fath, ond yr ail a'm blina fwyaf. Unwaith y dechreuaf ar gwrs neilltuol, parhaf i ymsymud yn fy mlaen ; yn araf fy ngwala efallai ; ond ymlaen er hynny ; a byddaf yn rhy ddiog i fedru troi ar y dde nac ar yr aswy law.

Yn wir, oni ddêl rhywun i mewn i'm hystafell yn fuan, bydd yn berigl i'r ymson hwn fyned ymlaen, a hynny'n ddi-derfyn. O drugaredd, dyna gnoc ar y drws.

Aeth y trempyn

* * *

Yn gyffredin fe'm hystyrrir yn ŵr tawel, mwyn a hawddgar. Anaml y byddaf yn ymollwng i dymer wyllt. Wrth gwrs, mae'r sant mwyaf yn llithro weithiau. Dyna fater bychan yr ŵy hanner-berw a roed o'm blaen gan y forwyn y bore yma. Wel, rhaid i forynion ddysgu eu gwersi. Ond amgylchiad eithriadol oedd hwn, hyd yn oed. Yr wyf, ers blynyddoedd bellach, wedi ennill y cymeriad o ddyn o bwyll a barn. Nid pell wyf o safon hen offeiriad Goldsmith ; yn ŵr a gerir gan gymydogaeth gyfan ; ac nid yw safon fy nhâl fawr uwch nag eiddo Ficer Wakefield gynt ; neu pwy bynnag yw'r gŵr mwyn a ddisgrifir yn y " Pentref Anghyfannedd ". Ond ; rhaid yw cyffesu'r gwir : yr wyf yn rhy ddiog i fyned i'r drafferth o syrthio allan a phobl, ac yn rhy ddiddim i fyned i dymer sy'n werth ei galw yn dymer.

Pan eilw rhywun wrth fy nrws, nid oes gennyf ddigon o ynni i wrthod na chyngor na chardod ; er y gwn yn dda mai gwell fuasai ymatal naw tro o bob deg.

Dechreuais gyfeillachu a merch i gymydog flynyddoedd maith yn ôl. Euthum i'w gweled yn rheolaidd *siwrnai'r wythnos* ; aeth y peth yn arferiad ; ac ymlaen ac yn ôl yr awn fel bendil cloc, a hynny mor beiriannol a di-ramant ; ac ymlaen—ac yn ôl, yr euthum . . . Ond, pwy a ŵyr na ddaw'r gyffes hon o dan lygad y wraig ? Ac nid hoff gennyf fyth godi dadl â hi ; enillir y frwydyr drosti bob tro gan yr arch-fradwr hwnnw—fy Niogi diflino. Mae wedi hen ennill y llythyren fras.

Mawr hoffaf yr agwedd honno ar ddiogi a gyfleir gan yr ymadrodd " economy of effort ". Oni fedr y Sais yna wisgo pethau'n drwsiadus, a pheri i ddiffyg *barado* oddiamgylch yn holl ysblander rhinwedd !

" Darbodaeth ymdrech " ; na, ni wna'r wisg Gymreig mo'r tro ; rhaid croesi Clawdd Offa i gael gwisg a bery i drempyn diog wisgo lifrau gweision prysur y plas. Onid y gwŷr lifrau hyn—hynny yw, y crwydriaid yng ngwisg gweision gonest—yw rhai o enwogion pennaf yr orsedd ?

Mae'n amheus gennyf a wnaeth Dafydd ap Gwilym un strôc o waith yn ystod ei holl yrfa ramantus. Wrth waith golygir y peth hwnnw a gynnwys fesur helaeth o

" Chwys enaid a chasineb ".

Eithr nid pob trempyn yn yr Oesoedd Canol a fedrai alw "nwncwl" ar Ifor Hael.

Nid gwaith yw dilyn mympwy ; gall unrhyw foncyff di-fywyd nofio gyda'r llif. Cael ei gipio gan ffrydiau cynhyrfus ei nwydau naturiol a wnai'r bardd ysgawnfryd o lan Teifi wen ; ac am y gamp honno enwir ef ymhlith hanner dwsin prydyddion anfarwol yr oesoedd—gan grwydryn arall a oedd yn rhy ddiog i fyned ymlaen gyda gwaith gonest swyddfa cyfreithiwr—er y gwâd rhai bosibilrwydd y peth. Mae cyfreithwyr gonest yn bod ; cyfarfûm ag un y dydd o'r blaen, hen ŵr annwyl iawn, yn nhloty C———. Ond sôn am George Borrow yr oeddwn—crwydryn arall—a ddewisodd chwilio i mewn i ieithoedd dieithr fel y Gymraeg ac iaith y sipsiwn, ac aml i dro llurguniai hwy'n dra erchyll hefyd. A phan ymgymerodd ag atgyweirio llestri *tin*, a gwerthu Beiblau, yr un a fu ei hanes : rhy ddiog i lynu wrth ei *job*.

Ymollwng gyda llif eu tueddiadau hefyd a wnaeth Ieuan Brydydd Hir a Goronwy Owen.

Mae gennyf ryw frith gof am stori hogyn di-symud yn gwylio'r tegell yn berwi ar y tân, ac yn breuddwydio am ffrwyno ynni'r ager er mwyn porthi diogi dynoliaeth. Cyn hir awn yn rhy ddiffrwyth i dyfu traed ; dan ddylanwad trên, modur a pheiriant hedfan. Ac o dipyn i beth â'r aelodau eraill yr un mor ddiangenrhaid ; a'r corff a'r pen yn dilyn ; a llwyr ddiflanna dyn oddiar y blaned. Dyna'r casgliad rhesymegol.

Ond rhaid troi'n ol ; a fwriadwyd i ddyn weithio pan dynnwyd allan y *plan* yn y dechrau ? Am yr ateb—gwel Genesis : y bennod gyntaf.

Di-waith oedd ein prif riaint ; ac yr oeddynt hwy'n berffaith hapus. Yn ôl pob argoel yr ydym yn cyflym ddychwelyd i'r un ystâd wynfydedig. Cymerwn galon ; mae'r Oes Aur yn nes nag y breuddwydiodd bardd mwyaf optimistaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn fuan iawn yr unig waith a fydd gwasgu botwm, a dichon y gellir cyflogi gwas i wneud hynny, a gwas arall i wasgu botwm arall i ganu cloch i alw'r gwas cyntaf, ac yn y blaen.

Ond, dysg hanes ni mai un o

" Hil y diafol yw dyfais ".

Ei fawrhydi uffernol a fu'n achos yr alltudiaeth o Eden, a'r chwys a'r llafur ; ac felly efe yw ffynhonnell gyntefig y ddyfais a gais osgoi'r ymdrech.

Y mae Gandhi yn llygad ei le. Ac efallai mai un o chwyldroadau mawr y dyfodol a fydd ail ymollwng i ddiogi ysblenydd y dwyreiniwr ; a symleiddio bywyd i'w elfennau mwyaf cyntefig. Megis y canodd yr hen Omar :

> Ychydig wridog win a llyfr o gân,
> A thorth wrth raid, a thithau, eneth lân,
> Yn eistedd yn yr anial gyda mi—
> Gwell yw na holl frenhiniaeth y Swltân.

Dywed yr eneidegwyr wrthym fod gan eiriau ddylanwad mawr ar ein cymeriad a'n gweithredoedd. Y mae'r gair Cymraeg diogi yn cario o'i gylch ryw dawch a thrymder—fel clorofform. Y mae arnom eisiau gair neu frawddeg i gyfleu'r syniad gydag awyrgylch fwy ysgawn a heulog megis " fait-neant " y Ffrainc neu " dolce far niente " 'r Eidalwr.

Ond nid yw'r Cymro erioed wedi dysgu gwneud *dim* mewn modd melys a phrydferth. Dyna sydd yn gwneud seguryd gorfod yn beth mor hagr yn ein gwlad.

Problem fawr y dyfodol fydd oriau hamdden y werin. Nid oedd gan ein cyndeidiau amser i borthi diogi ; pes porthent, wel, newynasai eu hepil ; a difodiant a fuasai'n tynged ni eu plant ; ac nid ysgrifenasid y geiriau hyn (clywaf y *cynic* yn sylwi fod ochr olau i bob cwmwl—gan ffugio'r optimist am y tro).

Y mae ôl ymdrech ar ein hiaith. Y mae'n llawn drain a drysni a chonglau geirwon. Cymerwn hyd yn oed linellau wedi eu llyfnu gan Ddafydd ap Gwilym ei hun :

> Ysgafn ar don eigion wyd
> Esgud-falch edn bysgod-fwyd

am yr wylan.

Eos gefn llwyd ysgafn llef
A bronfraith ddigrifiaith gref

am adar cân ; ond trwm ac amhersain yw'r iaith i glust estron. Mor wahanol i iaith Dante, hithau'n werinol, ac yn foreach :

Nel mezzo del cammin di nostra vita
Mi retrovai per una selva oscura :

geiriau persain i glust unrhyw genedl.

Y mae diogi melys awyr yr Eidal yn y llinellau hyn ; megis ag yng ngeiriau'r hen fynach hwnnw a gerfiodd ar ddeial-haul yng ngardd rhyw fynachlog yn yr un wlad :

Horas non numero nisi serenas.

Ond nid yw'r Cymru wedi dysgu'r gelf o ymddiogia a thorheulo ; ni bu ganddo hamdden na heulwen i'w alluogi i wneud felly. Ac nid yw erioed wedi cael gair am brydferthwch a phrydferth ; fel, beauty, la beaute,—lovely, belle, bella, ac yn y blaen.

Mae'r iaith lafar yn hyn o beth yn well na'r iaith lên : geneth brydferth ; gymaint yn fwy pêr ei sŵn yw lodes lân ; ar wahân i ystyr gyntefig y geiriau ; ond diflanna hwnnw gyda threigl amser.

Ond, mae'r testun yn ymehangu, nes gweled o honom ei fod yn egwyddor yn rhedeg drwy'r holl gread . . . yn myned yn ei flaen, yn ei flaen, o hyd ac o hyd ; fel y blaned yn rhy ddiog i droi heb rywbeth i'w thynnu o hyd . . . a hen gloc amser yn mynd yn ei flaen yn rhy ddiog a hwyrdrwm i stopio—dic, doc, dic, dac . . A thyna gnoc wrth y drws. Trampyn arall, 'mentraf fy mhen arno !

Y Maęs Llafur.

YR HEN DESTAMENT A'I GYNNWYS.

Nodyn o Eglurhad.—Dywedwyd fod y maes llafur eleni yn rhy eang. Nid oes neb yn tybio y medr plentyn na dyn ennill gwybodaeth gyflawn o gynnwys yr Hen Destament mewn blwyddyn nac ychwaith mewn pedair blynedd, nac ychwaith mewn oes. Ond yn sicr nid amhosibl rhoddi i blentyn, gyda chydweithrediad athrawon cydwybodol, syniad gweddol glir am brif linellau hanes cenedl Israel a golwg ar drefn gyffredinol cynnwys lenyddol y Beibl. Hwyrach, o fod prif linellau y *map* yn ei feddwl, y bydd yn rhwyddach ac yn fwy diddorol i'r ymchwiliwr ieuanc gyfeirio ei gamrau ar hyd mân heolydd y tir yn y dyfodol. Ymdrech i gynorthwyo athrawon i gyfleu gwybodaeth elfennol o'r *map* ydyw'r nodiadau a ganlyn.

TREM AR Y CYNNWYS.

Cynhwysa yr Hen Destament ddeugain ond un o lyfrau yn y drefn ganlynol,—Genesis, Exodus, Lefiticus, Numeri, Deuteronomium, Josua, Barnwyr, Ruth, I. Samuel, II. Samuel, I. Brenhinoedd, II. Brenhinoedd, I Cronicl, II Cronicl, Esra, Nehemia, Esther, Job, Salmau, Diarhebion, Pregethwr, Caniad Solomon, Esaiah, Jeremiah, Galarnad Jeremiah, Eseciel, Daniel, Hosea, Joel, Amos,

Obadiah, Jonah, Michah, Nahum, Habacuc, Sephaniah, Haggai, Secharaiah, Malachi. Casgliad o lenyddiaeth y genedl Hebreig (yr Iddewon) ydyw y llyfrau yma. Dyma yr oll sydd ar gael o'r hyn a ysgrifenwyd gan y bobl yma o ddechreu eu hanes hyd tua tri chant a hanner o flynyddau cyn Crist. Ceir ambell ddarn a ysgrifenwyd yn ddiweddarach na hynny, y diweddaf efallai tua dau cant o flynyddau cyn Crist. Deallwn wrth yr hyn a ddywedir mewn amryw fannau yn yr Hen Destament fod yna lyfrau eraill wedi bodoli, ond am wahanol achosion ac o dan amrywiol amgylchiadau aethant ar goll.

Casgliad o lenyddiaeth *gyssegredig* neu "Ysgrythyrau" y genedl ydyw yr Hen Destament. Golyga hyn fod arweinwyr crefyddol y genedl ar wahanol brydiau wedi gwneyd *detholiad*, a'u bod am resymau neillduol wedi cyfrif rhai ysgrifeniadau yn addas i'w cynnwys mewn casgliad cysegredig, ac eraill yn anaddas. Yr ysgrifeniadau a dderbynnid oedd y cyfryw a gynhwysent hanes y genedl, neu ei deddfau, neu addysg grefyddol. Ond yr oedd yna egwyddor arall yn gweithredu yn y dewisiad. Ystyrid fod Moses, Dafydd, Solomon, y proffwydi, y rhai ynghyd ag eraill a dybid eu bod wedi ysgrifennu llyfrau yr Hen Destament, yn "ysbrydoledig", hynny yw, eu bod wedi ysgrifennu dan ddylanwad uniongyrchol ysbryd Duw. Y dyb mai y bobl ysbrydoledig yma a'u hysgrifennodd sydd i gyfrif am y ffaith y cynhwysa yr Hen Destament lenyddiaeth sydd yn anghydnaws ag ysbryd crefyddol y mwyafrif o'r llyfrau, megis Galarnad "Jeremiah", Caniad "Solomon", ac amryw o'r Salmau. Ond mae hyd yn oed y llenyddiaeth hanesyddol a llyfrau'r proffwydi yn amrywio mewn gwerth o safbwynt crefyddol, a hawdd yw cyfrif am hyn o gofio fod y llenyddiaeth gynharaf oll a'i darddiad tua mil o flynyddoedd cyn Crist, a'r diweddaraf ohono wedi ei ysgrifennu tua wyth cant o flynyddoedd yn ddiweddarach. Naturiol yw disgwyl fod syniadau crefyddol y genedl wedi dadblygu llawer dros yspaid mor hir. Y peth rhyfedd yw fod cymaint o unoliaeth mewn casgliad sydd a chymaint o amrywiaeth dawn a safbwynt ynddo.

Casgliad o lenyddiaeth a gyfrifid gan yr Iddewon yn ysgrythyrau ysbrydoledig yw yr Hen Destament.

Ceir yn yr Hen Destament (1) Hanes y genedl; (2) Ei deddfau; (3) Llawer o'i barddoniaeth; (4) Dysgeidiaeth ei phroffwydi; (5) Ei hathroniaeth.

Ceir y rhan fwyaf o *hanes* y genedl yn y ddau lyfr ar bymtheg cyntaf, hynny yw o Genesis i Esther. Ceir ambell ffaith yn ddiameu mewn llyfrau eraill sydd yn ychwanegu at ein gwybodaeth o hanes y genedl ond yn y llyfrau a nodwyd y ceir y rhan fwyaf o'r hanes. Ceir *deddfau* y genedl yn y pum llyfr cyntaf. Ceir *addysgiadau y proffwydi* yn Llyfrau y Proffwydi. Mae sôn am y proffwydi cynharaf a'u dysgeidiaeth, megis Samuel, Elias ac Eliseus yn Llyfrau Samuel a Llyfrau y Brenhinoedd. Ceir y rhan fwyaf o farddoniaeth grefyddol y Beibl yn y Salmau, —llyfr emynau yr Iddewon. Ceir darnau o farddoniaeth hefyd yma a thraw ar hyd y llyfrau hanes,—caneuon rhyfel, marwnadau, odlau yn dathlu buddugoliaethau a digwyddiadau cyffrous a phwysig eraill. Llyfr o farddoniaeth garwriaethol yw Caniad Solomon. Barddoniaeth hefyd yw corff Llyfr Job,—barddoniaeth athronyddol. Athroniaeth geir yn Llyfr y Pregethwr (Ecclesiastes) ac athroniaeth o ryw fath yn Galarnad Jeremiah. Athroniaeth neu ddoethineb ymarferol y genedl geir yn Llyfr y Diarhebion.

Hanes, deddfau, barddoniaeth, athroniaeth,—ond y cwbl yn ddadguddiad o enaid y genedl fwyaf grefyddol yn hanes y byd, y genedl o'r hon y tarddodd Iesu Grist a Christionogaeth.

YR HANES.

Tua tair mil a hanner o flynyddau yn ôl yr oedd yna nifer o lwythau (clans) o fugeiliaid yn byw fel caethion yn yr Aifft. Gelwid hwy yn Hebreaid (Hebrews), ac yr oedd ganddynt lawer o draddodiadau ynglŷn a'u hanes yn y gorffennol. Adroddent wrth eu gilydd storiau am un Terah, yr hwn a aeth allan o Ur y Caldeaid (yn Mesopotamia) i chwilio am wlad well iddo ef a'i deulu. Bu Terah farw yn Haran, ond aeth ei deulu yn eu blaen dan arweiniad Abraham ei fab. Daeth Abraham i wlad Canan (Palestina). Bu i Abraham fab,—Isaac, a bu i

Isaac ddau fab, Jacob ac Esau. Enw arall ar Jacob oedd Israel, a chenedl Israel fu enw y genedl y soniwn am dani drwy gydol ei hanes. Bu i Jacob (neu Israel) dracheſn ddeuddeg mab,—Reuben, Simeon, Lefi, Judah, Issachar, Zebulun, Dan, Naphtali, Gad, Asher, Joseph, Benjamin. Y deuddeg hyn a dybid oedd pennau teuluoedd, neu lwythau cenedl Israel. Adroddid fod brodyr Joseph wedi ei werthu fel caethwas i fasnachwyr o'r Aifft, ond iddo ar ôl cyrraedd yr Aifft ddyfod yn swyddog uchel yn llys y brenin, Pharaoh. Yn ddiweddarach daeth newyn mawr ar deuluoedd yr Israeliaid, a gorfu iddynt ddyfod i'r Aifft i chwilio am fwyd. Cawsant ganiatad i fyw ar ororau yr Aifft. Bu Joseph farw, ac mewn tipyn daeth teulu brenhinol newydd i orsedd yr Aifft a gwnaethpwyd yr Israeliaid yn gaethion. Buont yn y cyflwr yma am hir amser ond o'r diwedd, dan arweiniad gŵr ieuanc dewr a galluog o'r enw Moses, un o lwyth Lefi, diangasant dros y Môr Coch a'u wynebau yn ôl tua Canan.

Gorchwyl cyntaf Moses oedd ceisio gwneyd cenedl unedig o'r llwythau yma. Arweiniodd hwynt i fynydd Horeb (neu Sinai) lle y tyngasant i addoli ac i fod yn ffyddlon i'r un Duw. Galwent eu Duw wrth yr enw Yahweh (Jehofah yw yr enw yn ein Beibl ni). Yma hefyd rhoddodd Moses ddeddfau i'r genedl, fel y byddai trefn ar eu bywyd. Cynhwysir prif ofynion y deddfau hyn yn y Deg Gorchymyn. (Gweler Exodus xx, 1—17). Ar ôl hyn crwydrodd y genedl am tua deugain mlynedd ar hyd y tiroedd anial rhwng yr Aifft a Canan. Yn y diwedd drwy rym arfau daeth y llwythau i feddiant o'r rhan hynny o wlad Canan sydd yn gorwedd i'r tu dwyrain i afon yr Iorddonen. Cyn iddynt feddiannu y gweddill o'r wlad bu Moses farw. Aeth y frwydr am wlad Canan ymlaen dan arweiniad Josua. Llwyddodd ef a'i ganlynwyr i ryw fesur i feddiannu " Tir yr Addewid ", ond brwydro caled i ennill a chadw tir fu hanes y genedl am tua dwy ganrif.

Er i Moses ymdrechu gwneyd cenedl unedig o'r llwythau, nid oeddynt wedi dysgu byw yn gytun ac yr oeddent wedi anghofio bod yn deyrngar i'w Duw. Oherwydd hyn dioddefasant lawer wrth geisio ohonynt lwyr orchfygu y bobl a drigent yn Canan o'u blaen. Yn awr ac yn y man codai arweinydd a lwyddai i uno rhai o'r llwythau o dan un baner, ac ar y troion hynny llwyddid i orchfygu y Cananeaid neu y Philistiaid, a chai yr Israeliaid dymor o heddwch dan lywodraeth yr arweinydd buddugoliaethus, yr hwn a elwid yn " Farnwr ". Hanes yr amser cythryblus yma a geir yn " Llyfr y Barnwyr ". Y pedwar barnwr pwysicaf oedd Ehud, Barac (ynglyn a hanes ymgyrch yr hwn y ceir hanes Debora), Gideon a Jephthah. Ceir hanes hefyd am un Abimelech, a'r arwr poblogaidd Samson, ynghyd a saith eraill llai pwysig.

Er ymdrechion yr arwyr hyn, nid oedd fawr arwydd am wir undeb a buddugoliaeth a heddwch. Y diweddaf o'r Barnwyr oedd Samuel. Nid rhyfelwr oedd Samuel, ond " proffwyd ". Tybid fod y gallu ganddo i ragweled y dyfodol. Yr oedd ganddo beth bynnag gryn dipyn o ddylanwad ac awdurdod a thebyg mai efe a gynghorodd y genedl i uno dan lywodraeth brenin.

Urdd y Benywod.

Y CWRDD BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd trydydd cwrdd blynyddol yr Urdd ym Mrondeifi, prynhawn dydd Sadwrn, Rhagfyr yr ail. Er oered yr hin, daeth tua chwech ugain o swyddogion ac aelodau gwahanol ganghennau yr Urdd ynghyd, heblaw gweinidogion y Sir. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Miss Jones, Hendai, Llanbedr. Am y tro cyntaf yn hanes yr Urdd yn Sir Aberteifi cynhaliwyd Gwasanaeth Cymundeb, a'r Parch. T. Oswald Williams, M.A., yn gweinyddu y cymun.

Anerchwyd y cyfarfod gan Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybydder, a hithau yn ymddiswyddo ar ben ei thymor fel Llywydd. Diolchodd yn gynnes i'r aelodau am eu ffyddlondeb a'u cefnogaeth, ac anogodd hwynt i ymdrechion mwy eto dan arweiniad eu Llywydd newydd, Mrs. T. O. Williams. Datganodd Mrs. Jones ei gofid oherwydd ymddiswyddiad yr ysgrifennydd, Miss R. M. Evans, Ffynonfair, a'r is-ysgrifennydd Miss Williams, yn awr o Giliau, a hwythau wedi gwasanaethu yr Urdd mor dda. Apeliodd Mrs. Jones am i'r Urdd barhau i roddi cefnogaeth deilwng i'r Gymdeithas Undodaidd Gymreig, gan fod safle ariannol y gymdeithas mor isel a'i hangen mor fawr.

Deallwyd y byddai i drysorfa yr Urdd dderbyn o'r elw a wnaed o gyngerdd y Dorian Trio.

Dywedodd Miss R. M. Evans, Ffynonfair fod yn ofid ganddi orfod ymddiswyddo o fod yn ysgrifennydd yr Urdd, a bod gwaith a llwyddiant yr Urdd yn agos iawn at ei chalon. Cyflwynodd adroddiad o waith y flwyddyn a dywedodd fod yna yn awr bedair cangen ar ddeg, un ymhob capel, a phob un o honynt ar gynnydd. Yr oedd yr elfen ddefosiynnol yn cael lle amlwg yn y cyfarfodydd, ac yr oedd y darlithiau, a'r miwsig a'r crefftwaith yn apelio yn fawr hefyd at yr aelodau.

Cyflwynwyd diolchgarwch cynnes yr Urdd i'r aelodau a ymddiswyddent, ar gynygiad Miss Jones, Gellifaharen, yn cael ei heilio gan Mrs. Jones, Dolgerdd.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn newydd : *Llywydd*, Mrs. T. O. Williams ; *Is-Lywydd*, Mrs. J. E. Jones, Llandysul ; *Ysgrifenyddion*, Mrs. Aubrey Thomas, Llanbedr a Miss Jenkins, Glenover, Llanbedr. Ail etholwyd Mrs. Jenkins, Barclays Bank, Llanybydder, yn *Drysorydd*, a Miss Jones, Gellifaharen yn *Ohebydd y Wasg*.

Rhoddwyd croesaw cynnes iawn i'r Parch. E. Rosalind Lee, M.A., Ysgrifennydd cyffredinol yr Urdd ym Mhrydain. Yn ei hanerchiad derbyniol a phwrpasol dywedodd Miss Lee y dylai yr elfen ddefosiynol gael y lle blaenaf yng ngwaith y mudiad. Y peth pwysig oedd yr ysbryd yn yr hwn y rhoddid gwasanaeth. Ceid yn aml rai o'r canghennau lleiaf yn gwneyd y gwaith goreu. Peth ail-bwysig oedd gwneyd arian. Dylai pob cangen o'r Urdd gydweithio â'r eglwys a'r gweinidog a bod yn barod i gynorthwyo lle bynnag y byddai angen. Apeliodd Miss Lee at yr aelodau i wrteithio y ddawn i siarad yn gyhoeddus,—peth sydd yn wir bwysig heddiw.

Diolchwyd yn gynnes i Miss Lee am ei hanerchiad ar gynygiad Miss S. Davies, B.A., Caeronnen, yn cael ei heilio gan Mrs. Bowen, Alltyblaca.

Trefnwyd i gynnal y cwrdd nesaf yn Llwynrhydowen.

Ar ôl i'r cwrdd derfynu cafwyd te wedi ei ddarparu yn flasus ac yn ddestlus gan aelodau cangen Brondeifi.

Priodasau.

Hydref 12, yng Nghapel y Graig, Llandysul, Benjamin Tyssul Jones ac Eleanor Jones.

Tachwedd 14, yng Nghapel Pantydefaid, Ivor Jones ac Annie Evans.

Marwgofion.

Tachwedd 17, yn 91 oed (yn ymyl ei 92), bu farw Evan Williams, Brynderw, Llanwnen. Wedi oes hir o iechyd cymharol dda, dechreuodd y corff wanychu a dadfeilio ychydig fisoedd yn ôl ; wedi'i gyfyngu i'w dŷ (ac i'w wely yr wythnosau diweddaf), bu farw'n esmwyth, fel pe'n syrthio i gwsg. Gadawodd mewn hiraeth dwys o'i golli ddau fab a dwy ferch. Y mae un mab—David—yn brif oruchwyliwr yn un o ganghennau Ariandy Barclay ; tra y cyd-drigiannai un mab a merch—John a Hannah—ag ef ym Mrynderw. Bu'r ddau yn ofalus iawn o hono,

a chafodd bob tiriondeb posibl oddiar eu llaw. Er cydnabod o honynt iddo gael oes faith, nid oeddynt yn barod i ffarwelio, gan gymaint eu parch iddo a'u hanwyldeb o hono ; a diau y gwelant ei le yn wag iawn am hir amser. Cydymdeimlir â hwynt yn fawr gan gylch eang eu hadnabyddiaeth yn eu hiraeth a'u colled. Mab ydoedd i William a Rachel Williams o Droedrhiw ym mhentref Llanwnnen. Yr oedd yn un o wyth o blant—yr oll, belled y gwyddis, wedi ei ragflaenu. O du'r ddau riaint, hannai o dylwyth a fu'n neillduol o luosog yng nghymdogaeth Llanwnnen yn y rhan gyntaf o'r 19eg ganrif. Er bod nifer luosog o honynt yn fyw eto, nid ydynt agos lluosoced ag y buont. Dilynodd ei dad yn yr alwedigaeth o grydd ; a bu'n adnabyddus fel gwneuthurwr a masnachwr esgidiau i gylch eang o'r ddwy sir—cyrchai pobl ato o bell fel o agos ; ac enillodd ymddiriedaeth lwyraf ei gwsmeriaid lluosog fel dyn gonest a didwyll yn ei waith ac yn ei fasnach. Ni adawai i un gorchwyl fynd o'i law oddieithr y bodlonid ef ei fod y gorau a fedrai. Enillodd barch ei gymdogion a'i hadnabyddai'n orau ar gyfrif ei ysbryd heddychol a thangnefeddus, ac edrychid i fyny ato gan bawb a'i hadnabyddai ar gyfrif ei gymeriad cywir. Yr oedd ei rieni o nifer aelodau cyntaf Capelygroes ; ymaelododd yntau pan yn ieuanc iawn ; a bu'n noddwr cryf a ffyddlon i'r achos hyd y diwedd ; a chalonogol yw'r meddwl bod ei blant yn dilyn ei ôl. Ers blynyddoedd methai â mynychu'r addoliad ar gyfrif ffaeledd henaint ; eithr parhaodd ei ddiddordeb yn a'i ddymuniad i'r achos hyd y diwedd. Rhagflaenwyd ef gan ei briod rai blynyddoedd yn ôl, a chan ei fab William—yntau hefyd yn brif oruchwyliwr yn Ariandy Barclay. Bu colli'r ddau—ei briod a'i fab—yn ergydion caled iddo. Y dydd Mawrth dilynol, hebryngwyd ei weddillion i gladdfa'r teulu yng Nghapelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau a'r cymdogion agosaf. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. J. Jones ac Evans Bowen ; yn y Capel, darllenwyd gan y Parch. B. Davies, ficer Llanwnnen ; traddodwyd anerchiad gan y Parchn. D. Evans a chan y Parch. Dewi J. Jones (gweinidog), a gweddiwyd gan y Parch. Lewis Williams ; ar lan y bedd gweddiwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A.

Trist dros ben yw'r gwaith o gofnodi hanes marwolaeth y cyfaill annwyl David Thomas, mab Mr. a Mrs. D. Thomas, Minyffordd, Tylorstown, yn 49 oed. Dydd Gwener Rhagfyr 1, tra wrth ei waith, a bron ar ddechrau'r "shift", cyfarfu â damwain fu yn angeuol iddo ymhen ychydig amser. Ceir colled enbyd ar ei ôl. Bu yn un o ffyddloniaid y Capel Bach yng Nghlydach Vale am flynyddoedd, a bydd hanes ei farwolaeth yn loes i'r gweddill sydd ar wasgar ac yn cofio am dano. Yr oedd yn un o'r goreuon, yn dawel a diymhongar, a ganddo barch diffuant at bethau gorau bywyd. Clywid yr un dystiolaeth am dano ymhob cyfeiriad, ei fod yn wr bonheddig diledryw. Yr oedd ei adnabod yn gaffaeliad ac erys yr atgof am dano ynfelys a pheraidd. Gedy ar ei ôl weddw a dau o blant a chyflwynwn iddynt ein cydymdeimlad dwysaf yn eu hiraeth a'u gofid, ac i'r tad a'r fam o golli mab oedd mor deilwng o honynt, ac hefyd i'r brodyr a'r chwiorydd yn eu galar ar ôl brawd oedd mor annwyl ganddynt. Claddwyd ym mynwent Penrhys dydd Mercher, Rhagfyr 6, pan y daeth torf fawr ynghyd i'w angladd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, D. John (A), a G. Jones (A).

"Gadawn i Dduw esbonio ei Hun
Try Ef y nos yn ddydd."

Rhagfyr 3, bu farw Marian Janet Rowlands, baban Mr. a Mrs. Rowlands, Hafodwen Mill, Cribin, yn 15 wythnos oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r rhieni ieuanc yn eu hiraeth. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent y Cribin. Gwasanaethwyd gan y Parchn. David Evans a D. J. Jones.

Rhagfyr 8fed, yn 73 mlwydd oed, Sarah Evans, gweddw y diweddar Daniel Evans, Ystrad House, Ystrad, gerllaw Felinfach, Ceredigion, gynt o Nantygelli. Cafodd ergyd o'r parlys y dydd blaenorol i'w marwolaeth, yr hyn a'i gwnaeth yn anymwybodol hyd ei diwedd. Yr oedd yn un o gymeriad cadarn, ac eto yn hawddgar. Yr oedd o ysbryd siriol, ac yn meddu ar y gallu i fod yn dawel a digyffro ym mhob math o amgylchiadau. Ni fyddai byth yn defnyddio geiriau

gwag ac ofer, a byddai ei hymddiddan bob amser yn cael ei nodweddu gan graffder a doethineb. Ni fwytaodd fara seguryd, eithr bu yn ddiwyd ar hyd ei bywyd. Cafodd ei dysgu gan ei rhieni, sef y diweddar David a Hannah Howells, Ystrad House, i garu yr achos yn Rhydygwin, ac yr oedd yn aelod o'r eglwys er yn ieuanc. Claddwyd y Mawrth canlynol ym mynwent eglwys Llanfihangel-Ystrad, yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Emrys Evans, Tynygwndwn a Lewis Williams, Rhydygwin, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. W. H. Morgan, B.A., B.D., Ficer. Gadawodd ddwy ferch, mab-yng-nghyfraith ac wyres, brawd yng nghyfraith, a neiaint, ynghyd a pherthynasau eraill mewn galar dwys.

RHAGFYR 19eg, yn 81 mlwydd oed, Joseph Thomas, Ffynonoer, Llanfihangel-Ystrad. Wythnos cyn ei farwolaeth yr oedd yn iach fel arfer, ond cafodd ergyd o'r parlys, yr hyn barodd ei ddiwedd ym mhen ychydig ddyddiau. Dechreuodd ei fyd yn Nhy'ncwm, Blaenau-Gwenog. Tra yno gweithiodd yn galed, a thrwy ei ddiwydrwydd ef a'i briod ynghyd a chynorthwy ei blant, gwellodd ei amgylchiadau. Symudodd ef a'i deulu i Wernddu, Llanfihangel-Ystrad. Tra yn Nhy'ncwm yr oedd yn aelod ffyddlon o'r eglwys yng Nghapelybryn. Ar ôl symud i Wernddu bu yn un o aelodau ffyddlonaf eglwys Rhydygwin. Pan ddaeth angen am ddiaconiaid newydd yn yr eglwys hon yr oedd ef yn un o'r rhai a benodwyd. Yr oedd ei ffordd i'r capel yn faith, ac hefyd yn arw, ond nid oedd byth yn absennol o'r gwasanaeth oni fyddai rhywbeth pwysig yn ei rwystro. Ac nid peth ar y wyneb oedd ei grefydd, eithr yr oedd cuddiedig ddyn y galon mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a meddyliau glân ac egwyddorion uniawn, yr hyn sydd ger bron Duw yn werthfawr. Yr oedd yn nodedig o unplyg : nid oedd dim yn guddiedig ynddo, na dim drwg yn perthyn iddo. Enillodd iddo ei hun ar gyfrif hyn air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Gwelwyd ddydd ei angladd arwydd amlwg o'r parch oedd iddo gan y nifer luosog ddaeth ynghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Claddwyd ym mynwent Capelybryn. Pregethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chymerwyd rhan gan y Parchn. Dewi J. Jones ; S. Evans Bowen ; T. O. Williams, M.A. ; E. Gwilym Evans, B.A., ac E. O. Jenkins. Yr oedd y Parchn. Marles Thomas, M.A. a D. Evans hefyd yn bresennol. Gadawodd un mab a dwy ferch, ynghyd a mab a merch-yng-nghyfraith, ac wyrion a neiaint mewn galar dwys. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Nodion yr Eglwysi.

PANTYDEFAID.—Cafwyd cyfres o gyfarfodydd pregethu ardderchog ynglŷn â'r Cyrddau Cwarter diweddaf. Credwn fod safon y pregethu yn llawer uwch nag arfer. Pregethwyd gan y Parchn. Lewis Williams, S. E. Bowen, J. D. Jones, B.A., B.D., T. L. Jones ac E. R. Dennis. Cymerwyd rhan yn y gwasanaethau hefyd gan y Parchn. D. Rhydderch, B.A. (A), Dewi J. Jones a T. Oswald Williams, M.A. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mr. Thomas Lloyd, Pyllaubryn am ei rodd werthfawr o *portable communion set* arian i eglwys Pantydefaid er hyrwyddo gwaith y gweinidog wrth ymweled â'r cleifion sydd yn methu a bod yn bresennol ar Sul y Cymundeb. Mae ein diolchgarwch hefyd yn ddyledus i'r Henadur Josiah Jones, Y.H., Garthowen, am ei garedigrwydd mawr yn gosod *stove* effeithiol yn festri y capel. Nid digon cynesrwydd ysbrydol, rhaid cael cynesrwydd corfforol hefyd.

LLWYNRHYDOWEN.—Nos Wener, Tachwedd 3, cafwyd Social Tea o'r fath orau yma. Yr oedd yr hin yn dda a'r lleuad yn ei hwyliau gorau a bu hynny debig iawn, yn help i chwyddo nifer y rhai a ddaethant ynghyd. Rhoddwyd y wledd gan Miss Anne Davies, Pantmoch, cadeiryddes canghen Urdd y Benywod yn y lle. Yr oedd dau amcan i'r Te hwn : (1) Ceisio ychwanegu at nifer aelodau'r gangen ; (2) Ceisio ychwanegu at Drysorfa'r gangen, oblegid rhoddodd Miss Davies yr oll o'r elw at yr achos. Gobeithiwn fod y ddau amcan wedi ei sylweddoli i raddau pell. Diolch yn fawr iddi am y noson a'i bwriadau da.

CRIBIN.—Ar nos Iau, Tachwedd 9, cafwyd *Social evening* dan nawdd Urdd y Benywod. Rhoddwyd y tê gan yr aelodau eu hunain, a daeth nifer dda yno. Treuliwyd noson hapus iawn, ac edrychir ymlaen am dymor llwyddiannus. Trefnwyd cael llawer o ymwelwyr yn ystod y tymor.

CAPELYGROES.—Ar y 10fed o Dachwedd cychwynodd Urdd y Benywod y tymor yn y ffordd arferol. Mrs. Evans, Felinban a fu mor garedig y tro hwn. Cafwyd gwledd ardderchog, a daeth yr aelodau yno yn gryno i'w mwynhau. Ar ran yr aelodau, cyflwynodd Miss R. M. Evans, N.D.D. eu diolchgarwch i Mrs. Evans am ei charedigrwydd.

CAPELYFADFA.—Nos Wener, Tachwedd 19, cafwyd Social hwylus iawn yma. Rhoddwyd y wledd gan aelodau Urdd y Benywod ac amcan y Social yn bennaf oedd rhoi mynegiant i'n llawenydd yn llwyddiant Mr. J. Marles Thomas yn ennill y radd o M.A. ym Mhrifysgol Glasgow. Er fod y noson yn arw daeth torf dda ynghyd—o'r gynulleidfa ac o'r tu allan iddi—ac yr oedd pawb yn eu hwyl orau—arwydd ni a gredwn nid yn unig o barch ond o serch ei gyfeillion tuag at Mr. Marles Thomas. Bu nifer o blant yn adrodd a chanu a Mr. E. Lloyd Jones, Pantybryn, yn arwain y cwrdd. Cafwyd anerchiadau gan y Parch. E. O. Jenkins, Mri. J. R. Thomas ; D. Lewis, Llandysul ; E. Lloyd Jones a D. Jones, Dolgerdd. Byrdwn yr areithiau oedd llongyfarchiadau a dymuniadau da. Cafwyd araith wresog iawn hefyd gan Mr. T. Ll. Stephens, ysgolfeistr Talgarreg yr hwn a siaradai i'r un perwyl ar ran cynulleidfa Pisgah a'r ardal yn gyffredinol. Yna cafwyd anerchiad cryno, difalch a naturiol iawn gan Mr. Marles Thomas. Noson i'w chofio dro yn siwr. Canwyd " Calon Lân " cyn ymwasgaru.

CAPELYGROES.—Rhagfyr 14, cafodd yr Ysgol Sul ei gwledd dê flynyddol. Y rhoddwyr eleni oedd Mrs. Evans, Pwllglas ; Mrs. Hughes, Cwmhendryd ; Mrs. Thomas, Llysfaen-isaf, a Mrs. Evans, Beili. Daeth nifer luosog i gyfrannu ohoni, a dywedai pawb iddo gael ei lwyr.fodloni. 'Roedd y byrddau yn llawn o bob math o bethau melys. Cafwyd cyngerdd hwylus yn yr hwyr. Llywyddwyd gan Mr. David Thomas, Llysfaen-isaf, a gwnaeth ei waith yn ardderchog. Derbynied y cyfeillion caredig hyn ein diolchgarwch gwresocaf, a derbynied y plant a phawb arall yr un diolchgarwch am eu parodrwydd i wasanaethu.

Y GRAIG, LLANDYSUL.—Anrhegwyd Eglwys y Graig a chwpan arian prydferth at wasanaeth y Bedydd gan Mr. Davies, Jeweller, Ponttweli, ac fe'i defnyddiwyd ef ar y tro cyntaf, Sul, Rhagfyr 17, wrth fedyddio mab bychan Mr. a Mrs. Davies. 'Rym yn ddiolchgar i Mr. Davies am ei rodd hardd. Rhoddwyd tê a *Christmas Tree* i blant Ysgol Sul y Graig nos Lun, Rhagfyr 18, gan aelodau y Women's League. Cafodd pob plentyn rodd gymeradwy oddiar y goeden a threuliwyd noson lawen. Llywyddwyd gan Mrs. Jones, Jeweller, yn ei modd hapus hi ei hun.

ALLTYPLACA, CAPELYBRYN, A CAPELYCWM.—Hyfryd yw cofnodi rhoddion i'n capeli oddiwrth edmygwyr. Yn ddiweddar derbyniodd Alltyplaca oddiwrth Mrs. Williams, Dolau-gwyrddon Lyfr Emynau at wasanaeth yr Organydd ; a Chapelybryn a Chapelycwm " Oilstoves " oddiwrth Mrs. Davies, Brynhogfaen ; Mrs. Jones, Tanralltgoch ; Mrs. Davies, Troedyrhiw ; Mrs. Jones, Brynllefrith ; Mrs. Richards, Penlanfawr ; Mrs. Thomas, Tyngrugisaf a Mrs. Meredith Williams, Penralltnewydd. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion hyn.

ABERYSTWYTH.—Mae Mr. J. Marles Thomas, M.A., Talgarreg, gynt o Brifysgol Glasgow a Choleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, wedi derbyn galwad unfrydol eglwys fechan Heol Newydd i ddod i'w bugeilio, a bydd iddo ddechrau ar ei waith ar y Sul cyntaf yn y Flwyddyn newydd. Sicr gennym y bydd i'r holl enwad Undodaidd ddymuno i'r gweinidog ieuanc bob llwyddiant yn ei faes llafur cyntaf. Prynhawn Sadwrn, Rhagfyr y 9fed cafwyd te a chyfeillach blynyddol Urdd y Benywod. Daeth nifer dda ynghyd a gwnaed swm sylweddol tuag at ddileu'r ddyled fechan oedd pryd hynny yn aros ar y gynulleidfa am baentio ac addurno'r capel bach.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... 7/6 or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... 4/6 or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. 2/6 or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... 1/6 or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

CECIL JONES

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE NO. 209.